Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio

2 Chwefror 2018

Annwyl Weinidog,

Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau – Adfywio canol trefi: Pum mlynedd yn ddiweddarach

Diolch ichi am fod yn bresennol yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 7 Rhagfyr 2017 i drafod y cynnydd a wnaed ar adfywio canol trefi yng Nghymru.

Yn sgîl y dystiolaeth a gafwyd, rydym wedi nodi cyfres o faterion allweddol y credwn y mae angen eu hystyried ymhellach a/neu weithredu arnynt yn y dyfodol. Mae'r rhain ynghlwm fel atodiad i'r llythyr hwn.

Mae cofnod llawn o'r trafodion o'r cyfarfod ar 7 Rhagfyr ar gael ar wefan ein Pwyllgor:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20692

Yn gywir,



Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

ATODIAD 1 - Materion allweddol a oedd yn codi o'r sesiwn ar adfywio canol trefi: Pum mlynedd yn ddiweddarach

Cyflwyniad

Casglodd Pwyllgor Menter a Busnes blaenorol y Pedwerydd Cynulliad dystiolaeth yn hydref 2011 yn archwilio'r modd y defnyddiodd Llywodraeth Cymru yr hyn a oedd ar gael i'w helpu i adfywio canol trefi yng Nghymru. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Ionawr 2012.

Daeth y Pwyllgor blaenorol i'r casgliad bod canol trefi hanfodol, bywiog wrth wraidd cymunedau cynaliadwy, ac maent yn greiddiol i economi Cymru iach a ffyniannus. Fodd bynnag, canfu'r Pwyllgor fod enghreifftiau o strydoedd mawr gwan a bregus gydag eiddo gwag ac amgylcheddau siopa gwael ledled Cymru. Clywodd y Pwyllgor fod y rheswm am hyn yn rhannol oherwydd y dirywiad economaidd a'r gostyngiad cysylltiedig mewn gwariant defnyddwyr, ynghyd â materion strwythurol hirdymor.

Daeth y Pwyllgor blaenorol i'r casgliad, pe bai canol trefi yn creu'r ateb gofynnol, byddai dull soffistigedig, integredig a chynaliadwy lle'r oedd arweinyddiaeth gref o'r lefel genedlaethol i'r lefel leol, a lle'r oedd yr holl bolisi, cynllunio a chyfleoedd ariannol wedi'u cydlynu a'u symleiddio'n strategol er mwyn annog twf cynaliadwy ac amrywiol, yn ogystal â darparu ansawdd, gwerth a dewis i ddefnyddwyr.

Gwnaeth y Pwyllgor 21 o argymhellion, ac roedd 12 ohonynt yn gofyn am weithredu cydlynol gan Lywodraeth Cymru. Yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad blaenorol y Pwyllgor, fe wnaethon nhw dderbyn 19 o'r argymhellion yn llawn a 2 o'r argymhellion mewn egwyddor.

Casglwyd tystiolaeth lafar yn ystod sesiwn hanner diwrnod ddydd Iau 7 Rhagfyr 2017 i ganfod pa gynnydd a wnaed hyd yma, a lle mae angen cynnydd pellach. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid a sesiwn gyda Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio,.

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da ar argymhellion y Pwyllgor blaenorol. Fodd bynnag, mae rhai o'r heriau a welwyd bum mlynedd yn ôl yn parhau, ac mae heriau newydd, na ragwelwyd, wedi dod i'r amlwg. Mae'r ddogfen atodedig (atodiad 2) yn darparu crynodeb o'r holl faterion a drafodwyd. Isod, mae'r Pwyllgor yn nodi rhai materion allweddol sydd angen ystyriaeth bellach a / neu weithredu gan Lywodraeth Cymru.

Deall canol trefi

Yn ystod y digwyddiad i randdeiliaid, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch pa mor bwysig yw bod canol trefi yn ddiogel, yn hygyrch ac yn lân, gan fodloni anghenion y gymuned, a'u bod yn wydn ac yn ymatebol i newidiadau, ac ag adfywiad diwylliannol a chymdeithasol canol tref yn cael ei wneud ar y cyd. Mae'n hollbwysig, wrth gynllunio ar gyfer adfywio trefi, i ddeall pwy sy'n defnyddio canol trefi a pham. Pan holwyd hi, dywedodd Llywodraeth Cymru fod cael y ddealltwriaeth hon yn argymhelliad allweddol yn adroddiad Ymddiriedolaeth Carnegie UK *Cefnogi Lleoedd Lleol a Phobl Leol: Cyfleoedd a Heriau ar gyfer Trefi Cymreig*[1]. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu darn o waith ymchwil o'r enw 'Deall Lleoedd yng Nghymru', a fydd yn cael ei gyflawni gan y Sefydliad Materion Cymreig. Nod y prosiect yw darparu data cadarn a fydd yn llywio penderfyniadau polisi cenedlaethol a lleol, ac yn 'helpu cymunedau i ddeall yn well sut y gallan nhw gyrraedd eu potensial', a gwella lles unigolion.'[2] Aeth y Gweinidog ymlaen i nodi y bydd cael y data hwn yn:

---

[1] Ymddiriedolaeth Carnegie UK, *Cefnogi Lleoedd Lleol a Phobl Leol: Cyfleoedd a Heriau ar gyfer Trefi Cymreig*, 2017

[2] Ymddiriedolaeth Carnegie UK, *Offeryn Data Newydd i Wella Trefi Cymreig yn y Dyfodol*, 5 Rhagfyr 2017

> ... identify what needs to be done, but also it will be useful then in future in terms of evidencing and giving an analysis of the kind of impact that our current interventions are having as well.[3]

Gan arwain o hyn, roedd cyfran fawr o'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen am i ganol trefi gael ymdeimlad clir o bwrpas. Mae angen i gymunedau a busnesau adnabod a chefnogi pwyntiau gwerthu unigryw ardal wrth adfywio.

Wrth sôn am gael dealltwriaeth strategol a rhanbarthol o sut mae canol trefi yn ymwneud â'i gilydd ac yn ymwneud â'u rhanbarth, dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio fod Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gydag awdurdodau lleol wrth baratoi eu cynlluniau datblygu strategol ac maent yn annog sefydlu rhagor o gynlluniau datblygu ar y cyd i awdurdodau lleol gydweithio.

Trafodwyd ardaloedd y tu allan i'r dref hefyd, ac oherwydd newidiadau i'r farchnad, er enghraifft, gyda phobl yn archebu rhagor o nwyddau ar-lein, mae llai o ddatblygiadau ar raddfa fawr yn dod i'r system gynllunio, a gallai parciau manwerthu presennol y tu allan i drefi fod am newid eu pwrpas. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r cynnydd yn nifer y siopau cyfleustra sy'n agor ar y stryd fawr mewn ymateb i duedd defnyddwyr ar hyn o bryd i brynu llai ond i siopa'n amlach, a nodwyd y cyhoeddiad gan gwmni Co-op y bydd yn agor deg siop newydd yng Nghymru yn 2018.[4]

Safbwynt y Pwyllgor

- Rydym yn croesawu gwaith 'Deall Lleoedd yng Nghymru' gan y Sefydliad Materion Cymreig. Byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr offeryn data hwn yn gwella dealltwriaeth, o ran pa fentrau sy'n gallu cynyddu ffyniant a lles trefi Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn ymhellach yn ei raglen waith.

---

[3] Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2017, paragraff 106

[4] Datganiad newyddion y Co-op, 2 Ionawr 2018

- Rydym yn cydnabod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn dilyn adroddiad y Pwyllgor blaenorol mewn perthynas â Pholisi Cynllunio Cymru a'r dull 'canol trefi'n gyntaf'. Fodd bynnag, credwn fod angen gwneud mwy wrth weithio gydag awdurdodau lleol i lunio eu cynlluniau datblygu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd, yn hytrach nag ar eu pennau eu hunain, a bod y gymuned a'r rhanddeiliaid allweddol yn cymryd rhan.
- Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw bod canol trefi yn adnabod a marchnata eu pwyntiau gwerthu unigryw. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut mae ei fentrau yn darparu'r offer a'r cymorth i gymunedau wneud hyn.
- Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ar sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r newidiadau posibl ar gyfer canolfannau y tu allan i drefi, a sut mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol wrth gynllunio ar gyfer eu defnydd cynaliadwy yn y dyfodol.

Eiddo gwag

Mater a godwyd gan y Pwyllgor blaenorol, ac sy'n parhau i fod yn her, yw eiddo gwag a landlordiaid absennol. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod cynlluniau fel 'Lleoedd sy'n Ffynnu ac yn Hyfyw' wedi helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd cynaliadwy, gall fod yn anodd iawn perswadio landlordiaid sy'n absennol, nad oes ganddynt ddiddordeb breintiedig yn y gymuned, i gymryd rhan mewn rhaglenni o'r fath.

Pan holwyd hi am y costau y mae'n ei olygu i awdurdodau lleol wrth brynu eiddo gwag, soniodd Llywodraeth Cymru am gynllun benthyciadau canol trefi. Gellir defnyddio'r cynllun £20 miliwn hwn i leihau nifer y safleoedd gwag, sydd heb eu defnyddio ac eiddo mewn canol trefi. Mae'r arian ar gael i awdurdodau lleol dros gyfnod o 15 mlynedd ar sail benthyciad ailgylchadwy, felly unwaith y caiff arian ei ad-dalu gall yr awdurdod lleol ail-fuddsoddi'r arian ar gyfer prosiectau addas

eraill, gyda'r benthyciad llawn i gael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod o 15 mlynedd.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y diffyg ymddangosiadol o ran defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol gan awdurdodau lleol. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref a Deddf Cymru yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol o ran Gorchmynion Prynu Gorfodol, ond mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried a oes angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r Gorchmynion, er enghraifft, cynyddu sgiliau staff awdurdodau lleol i ddefnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol yn effeithiol.

Holodd y Pwyllgor a fyddai'r Gweinidog yn fodlon creu corfforaethau datblygu rhanbarthol (o fewn y partneriaethau rhanbarthol newydd sy'n dod i'r amlwg) a allai ddarparu offeryn arbenigol ychwanegol i adfywio trefi. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n agored i gael y sgwrs honno ac i edrych yn fanwl ar ffyrdd o gronni adnoddau.

Safbwynt y Pwyllgor

- Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau y gellir defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol yn effeithiol a bod rhannu gwybodaeth a sgiliau wrth ddefnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei annog a'i gefnogi ar draws awdurdodau lleol.
- Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried creu corfforaethau datblygu rhanbarthol ac edrychwn ymlaen at gael ymateb ar y mater hwn.

Cau banciau ar y stryd fawr

Mae cau banciau'r stryd fawr yn digwydd ar gyflymder na ragwelwyd bum mlynedd yn ôl. Mae hwn yn fater a godwyd yn ystod sesiynau rhanddeiliaid a

chasglu tystiolaeth y Pwyllgor yn ogystal a chan Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr mewn ymateb i gwestiwn amserol ar 6 Rhagfyr 2017.[5]

Mae Aelodau'r Cynulliad wedi galw ar fanciau masnachol i gynnal presenoldeb rhwydwaith canghennau cryf yng Nghymru. Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr 2017 dywedodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, fod sicrhau bod mynediad at fanciau'r stryd fawr yn gofyn am:[6]

> ... making sure that the Post Office is well placed to take on a wider range of banking activities, using the support that the Welsh Government provides to the post office network in Wales, making sure that credit union membership is available right across Wales, using the nearly £0.5 million of additional investment that we're providing for credit unions this year [...] [and by undertaking] community-level activity

Safbwynt y Pwyllgor

- Mae cyflymder a graddfa cau banciau'r stryd fawr yn bryder mawr i holl Aelodau'r Pwyllgor. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am yr hyn y mae'n ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau bancio hanfodol ar gael o hyd i'r gymuned ar y stryd fawr.
- Credwn fod rôl gynyddol i swyddfeydd post wrth ddarparu gwasanaethau a gollir drwy gau banciau'r stryd fawr, a gofynnir am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar sut mae'n ymgysylltu â Swyddfa'r Post i sicrhau hyfywedd ei ganghennau yn yr hirdymor, ac a yw'n edrych ar gynlluniau fel y gronfa datblygu swyddfeydd post gynt.

Rhaglen Buddsoddi Adfywio a Dargedir

[5] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2017
[6] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2017

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am yr anhawster wrth greu mannau gweithio hyblyg yng nghanol trefi. Dywedodd y Gweinidog y gallai'r Rhaglen Buddsoddi Adfywio a Dargedir, a lansiwyd ym mis Hydref 2017 ac y disgwylir iddo fynd yn fyw ym mis Ebrill 2018, helpu i hyrwyddo adfywio yn yr ardaloedd hyn. Mae'r rhaglen £100 miliwn yn caniatáu i awdurdodau lleol, mewn ardaloedd adfywio diffiniedig, wneud cais am fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo adfywio economaidd ac yn gwasanaethu nodau datblygiad cynaliadwy ehangach gyda gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar unigolion a'r ardaloedd sydd fwyaf mewn angen.

Er bod y grŵp rhanddeiliaid yn croesawu'r rhaglen yn gyffredinol, nodwyd oes gyfyngedig y rhaglen fel mater o bryder, gan nad oedd yn darparu digon o amser i ymchwilio i brosiectau mwy arloesol, neu i'r system brynu gorfodol gael ei defnyddio'n effeithiol. Nododd Aelodau'r Pwyllgor y Rhaglen Buddsoddi Adfywio a Dargedir a'r manteision y gallai eu cyflwyno ond cwestiynodd y diffyg cyllid cyfalaf an-ffisegol a oedd ar gael a ph'un a oedd yn fwy o'r un ymateb traddodiadol i adfywio.

Safbwynt y Pwyllgor

- Er y croesawn y Rhaglen Buddsoddi Adfywio a Dargedir, rydym yn pryderu mai dim ond ar gyfer cyllid cyfalaf y mae hwn, ac na edrychir ar ddulliau cyllido an-ffisegol eraill. Mae'n bwysig ymchwilio i atebion arloesol, cadarn a chynaliadwy, ar y cyd â'r newidiadau ffisegol. Byddem yn croesawu sylwadau Llywodraeth Cymru ar hyn, ac ystyriaeth o ddulliau gweithredu mwy blaengar nad ydynt eisoes yn cael eu cynnal. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod datblygiadau ar raddfa fawr newydd yn darparu cyfleoedd i fusnesau bach lleol, drwy ddyrannu lle adwerthu ar gyfer busnesau newydd.

Y camau nesaf

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r materion a godir yn yr atodiad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i wneud rhagor o waith ar ganol trefi, ond mae'n ymwybodol bod dau ddarn o waith eithaf sylweddol ar ganol trefi ar fin dechrau:

- Ariannodd Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Carnegie UK yr offeryn data 'Deall Lleoedd yng Nghymru' gan y Sefydliad Materion Cymreig (gan adeiladu ar ddull a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK yn yr Alban). [7]
- Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) Cymru hefyd ar fin comisiynu darn o waith ymchwil sy'n edrych ar ddulliau seiliedig ar le o ran datblygu canol trefi, sydd i gyflwyno adroddiad yn y Gwanwyn.

O gofio'r gwaith sydd ar y gweill, mae'r Pwyllgor o blaid gohirio gwaith pellach nes ei bod yn gliriach lle gall y Pwyllgor ychwanegu gwerth.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod datblygiadau o ran awtomeiddio yn debygol o gael effaith sylweddol ar y stryd fawr draddodiadol dros y blynyddoedd i ddod, ac mae wedi ymrwymo i edrych ar hyn yn fanylach yn ddiweddarach eleni, gan gynnwys cyfarfod ag Amazon yn ei warws yn Abertawe i drafod y defnydd o awtomeiddio a mentrau fel y siop ddeallusrwydd artiffisial sydd wedi agor yn Seattle. Mae angen i Lywodraeth Cymru gadw datblygiadau o'r fath mewn cof, er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

---

[7] Ymddiriedolaeth Carnegie UK, *Offeryn Data Newydd i Wella Trefi Cymreig yn y Dyfodol*, 5 Rhagfyr 2017

Atodiad 2

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Adfywio canol trefi – Crynodeb o'r materion allweddol o ddigwyddiad rhanddeiliaid, 7 Rhagfyr 2017

Grŵp 1

Aelodau: Mark Isherwood AC
Joyce Watson AC
Russell George AC

Cyfranogwyr: Matt Appleby, Busnes yn y Gymuned
Steffan Roberts, Llywodraeth Cymru
Bill Powell, Ffocws Trafnidiaeth
Rachel Maycock, Living Streets Cymru

Edrych yn ôl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Ionawr 2012 ar Adfywio canol trefi – eich barn ar yr hyn a gyflawnwyd ers adroddiad 2012.

- Mae pobl sy'n cerdded i mewn i ganol trefi yn gwario mwy na'r rhai sy'n gyrru – yn ôl yr adroddiad 'pedestrian pound' gan Living Streets.
- Mae cau banciau yn 'gadael ei ôl ar y stryd fawr', ac mae cau swyddfa'r post hefyd yn achosi problemau mawr.
- Rydym yn fwy ymwybodol nawr o faterion ansawdd aer yng nghanol trefi nag oeddym pan gyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes.
- Mae angen rhwydweithiau trafnidiaeth cydgysylltiedig i gynnig dewis da amgen i yrru.
- Dylid ystyried darparu mannau busnes cymunedol fel rhan o ddatblygiadau newydd, o bosibl trwy gytundebau adran 106. Mae hyn yn rhywbeth y mae cynigwyr rhyddfraint rheilffordd hefyd yn ystyried ei ddarparu o fewn hybiau trafnidiaeth.
- Mae Talgarth yn enghraifft dda o ganol tref sydd wedi gwella dros y 10/15 mlynedd diwethaf.
- Nid ydym wedi datrys y mater o hyd o fyw uwchben y siop.

Dyfodol canol trefi

- Pwrpas y stryd fawr yw dod â phobl at ei gilydd, nid prynu pethau yn unig. Mae'n ganolfan ar gyfer pobl a allai, fel arall, fod yn ynysig yn gymdeithasol.
- Y gwahaniaeth o gymharu â siopa ar-lein yw eich bod chi'n cael lefel well o wasanaeth personol ar y stryd fawr. 'Ceir manylder mewn manwerthu'.
- Cafodd y rhan fwyaf o ganol trefi eu cynllunio tua 200, 300, 400 mlynedd yn ôl. Mae angen i ganol trefi yn y dyfodol fod yn hygyrch i bawb a darparu ar gyfer newid demograffeg, bod yn gyfleus i bobl, a 'gwneud i bobl werthfawrogi'r hyn sydd ganddynt'. Ni allwn ddisgwyl i Lywodraeth Cymru wneud hyn i gyd ond mae rôl i'r llywodraeth wrth arwain a chefnogi busnes.
- Yn y dyfodol, bydd pwrpas canol trefi fel lle cyfarfod yr un fath, ond yn hytrach na bod yn seiliedig ar fanwerthu, maent yn fwy tebygol o fod yn seiliedig ar wasanaethau, hamdden, diwylliant a threftadaeth.

Grŵp 2

Aelodau – Lee Waters AC
David Rowlands AC

Cyfranogwyr: Josh Miles, Ffederasiwn Busnesau Bach
Sara Jones, Consortiwm Manwerthu Cymru
Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Edrych yn ôl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Ionawr 2012 arAdfywio canol trefi – eich barn ar yr hyn a gyflawnwyd ers adroddiad 2012.

- Un maes y cytunodd pawb arno, ers yr adroddiad yn 2012, oedd nad oeddynt wedi rhagweld cau cymaint o fanciau ar y stryd fawr.
- Gall canol trefi fod yn llefydd bywiog i ymweld â nhw.
- Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag ardrethi busnes ond trafodwyd nad dyma'r ateb bob amser er bod angen ailbrisio yn fwy aml.
- Roedd teimlad (yn enwedig gan FSB) nad yw 5 argymhelliad cyntaf adroddiad 2012 wedi cael eu gweithredu gan y Llywodraeth.
- Gallai Croeso Cymru wneud mwy i annog ymwelwyr i ymweld â threfi sydd â phwynt gwerthu unigryw. Soniodd un cyfranogwr am ymweliad â Gogledd Cymru yn ddiweddar i ymweld â Zip World a chafodd ei annog drwy hyn i ymweld â'r trefi lleol gerllaw hefyd.
- Mae'n ymddangos bod tuedd demograffig 'rr henoed yn hytrach na'r genhedlaeth iau ymweld â thref.
- Roedd y drafodaeth hefyd yn canolbwyntio ar barciau manwerthu mwy y tu allan i'r dref sydd bellach yn colli ymwelwyr – yn bennaf oherwydd bod pobl yn archebu nwyddau mwy, fel nwyddau gwyn, ar-lein.
- Gallai'r trefi ddefnyddio hyn pan fydd pobl yn archebu nwyddau ar-lein – dywedodd Lee Waters fod Amazon yn treialu system lle rydych yn casglu eich pecynnau o siop yn y dref.
- Soniodd Vikki Howells y gellid gwneud mwy i wella hen adeiladau – eu hadnewyddu i mewn i dafarn / bwyty.

- Nodwyd bod costau teithio ar fysiau hefyd wedi cynyddu yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ac nad oedd hyn yn annog pobl i ymweld â thref, lle mae gyrru car yn rhatach.
- Mae angen i fusnesau yn y trefi ddod at ei gilydd i farchnata trefi fel llefydd i ymweld â nhw.
- Mae Aberdâr wedi gwella dros y blynyddoedd gyda chymorth y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – gallai mwy o drefi elwa ar hyn.

Dyfodol canol trefi

- Un cwestiwn a godwyd oedd – beth all y Llywodraeth ei wneud i helpu canol trefi.
- Cytunwyd bod rôl hanfodol o hyd i ganol y dref.
- Rhai enghreifftiau o ardal lle mae trefi wedi newid oedd – Pont-y-pŵl lle mae'r farchnad dan do wedi denu pobl i ymweld â'r dref.
- Dylai'r llywodraeth annog canolfannau meddygol i gael eu sefydlu mewn trefi a byddai hynny yn cael effaith ar fusnesau lleol.
- Mewn rhai trefi, yr atyniad i ymweld mewn rhai ardaloedd yw'r busnesau annibynnol fel caffis lleol.
- Os bwriedir i bobl ifanc ymweld â threfi, dylai fod cysylltedd da hefyd ar gyfer band eang.
- Roedd ansawdd aer hefyd yn ffactor allweddol yn y drafodaeth er mwyn sicrhau bod trefi yn fannau bywiog a glân i ymweld â nhw – mae problemau traffig yn atal pobl rhag ymweld.
- Gyda banciau'n symud allan o drefi fe grybwyllwyd bod undebau credyd yn cymryd eu lle.
- Roedd Lee Waters o'r farn na fyddem angen arian yn y dyfodol a chafodd hyn ei ddiystyru gan rai ar y bwrdd.
- Mae atyniadau gerllaw fel Zip World yn y gogledd yn denu pobl i ymweld â'r trefi lleol gerllaw – efallai mai'r dyfodol yw'r atyniadau hyn er mwyn annog pobl i aros yn hirach.
- Gallai'r metro hefyd chwarae rhan wrth ddenu pobl i'r dref.
- Gallai datblygiadau ar gyrion y dref annog pobl i ymweld â chanol y dref.

Grŵp 3

Aelodau: Adam Price AC
Hefin David AC

Cyfranogwyr: Alun Taylor, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
Antonia Pompa, Ardal Gwella Busnes (BID) Merthyr (The Big Heart)
Duncan Forbes, Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru
Ryland Jones, Sustrans Cymru

Edrych yn ôl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Ionawr 2012 ar Adfywio canol trefi – eich barn ar yr hyn a gyflawnwyd ers adroddiad 2012.

- Mae'r argymhellion, i raddau, wedi datblygu gwaith yn llwyddiannus ond nawr, mae angen ail-gynnau'r cydlyniad ar gyfer canol trefi.
- Nid oes digon o argymhellion sy'n ymdrin â phobl – mae angen i ni edrych ar sut y gallwn ni newid ymddygiad pobl, er enghraifft, beicio yn lle gyrru.
- Mae angen edrych ar y gymuned gyfan ac ymgysylltu â hi yn hytrach na dim ond edrych ar ganol trefi yn unig.
- Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn fuddiol ond nid yw'r buddion yn amlwg y tu hwnt i'r broses – mae angen mwy o arian a buddsoddiad i weld y buddion ar lawr gwlad.
- Mae trefniadaeth ddaearyddol ardal yn broblem ac mae angen dulliau mwy deinamig – yn enwedig yn yr ardaloedd mwy unionlin.
- Mae rhai enghreifftiau da o adfywio canol trefi lle defnyddiwyd pwyntiau gwerthu unigryw tref yn effeithiol.
- Trafodwyd rhai enghreifftiau da o ymgysylltu â'r gymuned mewn perthynas ag adfywio.
- Mae hygyrchedd canol tref yn cael effaith enfawr – trafodwyd yr effaith y gallai'r metro ei chael ar ardal.
- Nid yw lleoli swyddfeydd y tu allan i ganol y dref yn dod â gweithwyr i ganol y dref yn ystod yr awr ginio – mae trafnidiaeth hygyrch yn allweddol.
- Cyfalaf yn unig yw Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid ac mae angen refeniw arno.
- Bu ffocws sylweddol ar dai ond gellid bod wedi gwneud hyn gyda dull mwy cyfannol a darparu cyfleoedd ehangach.

- Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r defnydd aneffeithiol o Orchmynion Prynu Gorfodol. Roedd teimlad nad oedd 3 blynedd yn ddigon o amser ar gyfer Gorchymyn Prynu Gorfodol, gan y gall yn aml fod yn anodd olrhain perchnogion adeiladau sydd wedi adfeilio, a bod angen i'r cyllid fod ar gael o ddechrau proses y Gorchymyn.

Dyfodol canol trefi

- Trafodwyd newidiadau o ran ymddygiad - ar hyn o bryd, mae cyfleuster yn drech nag egwyddor, er enghraifft, hwylustod gyrru yn erbyn ansawdd aer, mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd o wneud newidiadau ymddygiadol effeithiol.
- Bod pobl sy'n mynd i ganol trefi yn hytrach na siopa ar-lein yn cael gwerth ychwanegol o ran gwasanaethau cwsmeriaid ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Mae'r rheolau a'r rheoliadau sy'n ymwneud â hunangyflogaeth yn ei gwneud yn eithaf anodd. Mae angen cynyddol am gyfalaf cymdeithasol ac amrywiaeth mewn hunangyflogaeth.
- Mae mwy o arloesi yn digwydd yng nghanol trefi. Mae angen sicrhau bod canol tref yn diwallu anghenion y gymuned ac yn ymwybodol o'r gwahanol anghenion demograffig.
- Mae angen i ni fod yn ymwybodol o dueddiadau demograffig a sicrhau bod pethau a fydd yn denu'r demograffeg hwnnw i ganol y dref ar adeg sy'n addas iddynt, er enghraifft darparu bywyd nos os yw'n briodol. Mae angen manteisio ar is-ddiwylliannau a sicrhau bod adfywio diwylliannol a chymdeithasol yn cydweithio.
- Mae angen integreiddio gwell rhwng polisi Llywodraeth Cymru ac adfywio trefi. Mae angen i Weinidogion Llywodraeth Cymru fod yn siarad â'i gilydd.
- Mae angen cynllun / maniffesto integredig ar gyfer unrhyw dref, a hynny'n cynnwys yr agweddau iechyd, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, nid yw'n ddefnyddiol pan fydd canolfannau iechyd wedi'u lleoli y tu allan i ganol trefi.
- Mae cael mannau gweithio hyblyg, sy'n caniatáu cymysgedd o fusnesau a mannau gwaith creadigol, yn effeithiol, er enghraifft, canolfannau amlbwrpas.